

# Canllaw Hyfforddiant Car Trydan Kia E-Soul





| Y Pwnc | Disgrifiad | Llun |
|---|---|---|
| 1. Datgloi / cloi y car | Defnyddiwch y teclyn rheoli o bell i ddatgloi a chloi'r car. Cadwch lygad am y drychau ochr yn ymestyn wrth ddatgloi ac yn cau wrth gloi.<br>**Sylwch – os nad yw'r car yn cloi, bydd hynny am fod yr injan dal ymlaen. Gweler cam 6 ar gyfer diffodd y car.** |  |
| 2. Gwefru'r car – cysylltu'r gwefrydd â'r car | Gwnewch yn siŵr fod y car wedi'i ddatgloi. Agorwch y cefn a dewis y cebl gwefru cywir.<br>Fe welwch chi;<br>1 x cebl gwefrydd cyflym gyda chysylltydd math 2 (dangosir ar y dde)<br>1 x cebl gwefrydd plwg 3 phin |  |


| | | |
|---|---|---|
| | Pwyswch y fflap ar flaen y car nes ei fod yn clicio, yna agor y fflap i weld y porth gwefru.<br><br>Yna gyda phen cywir y cebl gwefru, plygiwch y gwefrydd i'r porth gwefru sy'n ffitio. | <br> |
| 3. Gwefru'r car – cysylltu â phwynt gwefru 4 Kw | Ar gyfer mannau gwefru ym meysydd parcio'r Cyngor (e.e. Parc Myrddin, Caerfyrddin), rhaid dilyn y weithdrefn ganlynol a bydd angen **cerdyn Clenergy EV arnoch (dangosir yng ngham 4)**.<br><br>Daliwch y cerdyn gwefru wrth y derfynell nes i chi glywed bîp, ac ar ôl ychydig eiliadau dylai'r sgrin ddweud "cerdyn wedi'i dderbyn" a "plygiwch y cebl i'r soced”. **Sylwer: Efallai na fydd gan derfynellau eraill sgrin felly cadwch lygad am y golau'n newid (gweler tudalen 6).**<br><br>Gan ddefnyddio pen arall y cebl, plygiwch i mewn i borth y pwynt gwefru. Bydd golau gwefru ar y dangosfwrdd yn fflachio i ddangos gwefriad cyfredol (dangosir ar y dde). Gofalwch fod eich car ar glo i atal neb rhag dwyn y cebl.<br><br>Ar gyfer gwefru soced 3 phin blwch wal awyr agored gan ddefnyddio'r cebl a gyflenwyd - plygiwch y plwg 3 phin i'r soced (**peidiwch byth â defnyddio cebl estyniad gan nad yw'n ddiogel**). | <br> |

Crëwyd gan y tîm hyfforddi gweithredol
Chwefror 2022

| | | |
|---|---|---|
| | **Sylwer: Bydd y car yn gwefru'n arafach o lawer wrth ddefnyddio'r gwefrydd plwg 3 phin.** | |
| 4. Gorffen gwefru / cyn gadael y maes parcio. | Er mwyn rhyddhau'r cebl gwefru bydd angen i chi ddal y cerdyn gwefru yn erbyn y derfynell nes i chi glywed bîp a neges o ddiolch (neu'r golau'n newid). Wedyn byddwch yn gallu tynnu'r cebl gwefru allan.<br><br>Sicrhewch eich bod wedi datgloi'r car cyn ceisio tynnu'r pen (sy'n gysylltiedig â'r porth gwefru car) allan. Rîliwch y cebl lan a'i roi nôl yng nghefn y car. |  |
| 5. Agor y bonet | I agor y bonet er mwyn gwneud gwiriadau fel gyrrwr ac i lenwi'r golchydd sgrin, defnyddiwch y lifer rhyddhau ar ochr y gyrrwr a'i dynnu tuag atoch nes i chi glywed y bonet yn datgloi.<br><br>Pwyswch y teclyn rhyddhau ar y blaen i agor a chodi'r bonet. |  |
| 6. Dechrau'r injan. | Gofalwch fod yr allweddi yn y car. Pan fyddwch yn gyfforddus yn y sedd, sicrhewch eich bod yn gallu cyrraedd pedalau'r brêc a'r sbardun. Pwyswch y botwm Ymlaen/I Ffwrdd.<br><br>Bydd y sgrin yn goleuo ac fe glywch chi diwn. Bydd y dangos-sgrin hefyd yn dangos neges "self-check in progress" i sicrhau nad oes unrhyw wallau. |  |

| | | |
|---|---|---|
| 7. Dewiswch gêr i symud/symud am nôl. | Y gêr cychwynnol fydd "Park" bob amser. Sicrhewch fod eich troed ar y brêc, symudwch y gêr i D am *drive* neu i R am *reverse.*<br>**Sylwch - os nad yw eich troed ar y brêc ni fydd modd dewis gêr** (fe glywch chi sŵn 'ping' a bydd neges ar y dangos-sgrin yn dweud wrthych chi i roi eich troed ar y brêc.)<br><br>Ar ôl i'r gêr a ddymunir (gyrru neu am nôl) gael ei ddewis, rhyddhewch y brêc a bydd y car yn symud. Os bydd y car mewn man gwastad neu'n anelu am i lawr, bydd yn symud heb bwyso'r sbardun.<br><br>Daw'r camera ymlaen ar sgrin y consol canol wrth fynd am nôl, i'ch helpu i wneud hynny. |  |
| 8. Defnyddio'r brêc llaw. | Sicrhewch eich bod yn tynnu'r lifer brêc llaw lan pan fyddwch yn stopio neu'n parcio. Sylwch nad yw'r brêc llaw'n dod ymlaen yn awtomatig wrth ddiffodd y car, felly gofalwch eich bod chi'n cofio gwneud.<br><br>Dylai'r brêc llaw fynd i ffwrdd wrth wasgu'r sbardun, ond i wneud hynny â llaw, gwthiwch y lifer i lawr a gwrando am y sŵn datgloi. |  |
| 9. Dangos-sgrin - Cloc cyflymder | Tair prif ran y sgrin yw (chwith i'r dde);<br>1. Llaw chwith - Pellter mewn milltiroedd a bariau<br>2. Canol - Gwybodaeth y gellir ei newid i siwtio'r gyrrwr. Defnyddir y botymau togl ar y llyw i newid y sgrin. Ar waelod y rhan hon o'r sgrin fe welwch chi hefyd (o'r chwith i'r dde);<br>a. Tymheredd allanol<br>b. Gêr a ddewiswyd<br>c. Cyfanswm milltiroedd y car<br>3. Llaw dde - Cloc cyflymder a dangosydd brecio atgynhyrchiol |  |

Crëwyd gan y tîm hyfforddi gweithredol
Chwefror 2022

| | | |
|---|---|---|
| 10. Consol canol | Sgrin wybodaeth - gellir newid y cynllun i siwtio'r gyrrwr. Gall sgriniau ddangos (o gyffwrdd y botwm perthnasol);<br>• Llywio â lloeren<br>• Radio a chyfryngau cysylltiedig<br>• Gosodiadau clywedol y car<br>• Gosodiadau Bluetooth ar gyfer cysylltu ffôn symudol<br>Gellir rheoli'r sain drwy'r nobiau dan y sgrin neu drwy'r botymau ar y llyw.<br><br>Rheoli awyru<br>1. Mae troi'r deial chwith yn rheoli'r tymheredd – sylwch fod yn rhaid dewis y botwm "Heat" i gael gwres. Mae gwasgu'r hanner gwaelod yn diffodd yr awyru.<br>2. Mae troi'r deial dde yn rheoli cyflymder y ffan. Mae gwasgu'r hanner uchaf yn troi'r system aerdymheru ymlaen ac mae gwasgu'r hanner gwaelod yn rheoli'r fentiau sy'n rhyddhau aer (e.e. ffenestr flaen, gyrrwr, tuag at y traed, a chyfuniadau o'r rhain).<br>**Sylwer - bydd defnyddio'r system awyru, aerdymheru a gwresogi yn defnyddio pŵer y batri.** |   |
| 11. Sŵn drôn ar gyflymder isel | Mae'r cerbyd yn gwneud sŵn drôn wrth deithio ar gyflymder isel i wneud cerddwyr yn ymwybodol bod y car yn agosáu/pasio. | |
| 12. Arddangosiad ffenest flaen | ***Yn dibynnu os yw wedi'i ffitio i fodel y car***, fe welwch yr arddangosiad ffenest flaen yn ymddangos uwchlaw'r dangosfwrdd wrth gychwyn y car. Mae hyn yn rhoi'r terfyn cyflymder presennol i'r gyrrwr ac yn dweud a yw'r gyrrwr yn cadw o fewn y lôn(au) penodedig ar y ffordd. | |
| 13. Rhybudd gadael lôn | Gall y gyrrwr deimlo'r llyw yn ceisio cywiro'i hun os yw'r car yn synhwyro ei fod yn gadael y lôn gerbydau (ynghyd â bîp byr ac eicon yn fflachio ar y dangos-sgrin - yn y cylch). Dyma nodwedd ddiogelwch ddiofyn ac ni ddylid ei diffodd. Os yw'r gyrrwr yn defnyddio'r dangosydd cyn gadael y lôn (e.e. symud o un lôn i un arall ar ffordd ddeuol), nid yw'r car yn ceisio cywiro ei hun. |   |

Crëwyd gan y tîm hyfforddi gweithredol
Chwefror 2022

| | | |
|---|---|---|
| 14. Gosodiad ffrithiant atgynhyrchiol | Pan fydd y gosodiad ffrithiant ymlaen, bydd y car yn arafu ei hun pan fydd y gyrrwr yn codi ei droed oddi ar y sbardun.<br>Gall y gyrrwr reoli faint o ffrithiant sy'n cael ei ddefnyddio trwy wasgu'r switshis toglo – mae'r switsh togl chwith yn cryfhau ffrithiant, a'r switsh togl dde yn lleihau ffrithiant neu'n ei ddiffodd yn gyfan gwbl. |  |
| 15. Seddi wedi'u gwresogi | Gallwch droi gwresogyddion y seddi ymlaen, sy'n gwresogi'r sedd (pwyswch unwaith) ac i'r sedd fynd am yn ôl (pwyswch ddwywaith), dylech weld y goleuadau ambr yn dod ymlaen i ddangos bod hyn ymlaen."<br>Gwasgwch unwaith neu ddwywaith i'w droi i ffwrdd.<br>**Sylwer – bydd y seddi wedi'u gwresogi yn defnyddio pŵer y batri.** |  |

O ran cadw pŵer, bydd gyrwyr yn defnyddio llai o bŵer os byddant yn;

1. Gyrru ar gyflymder is (lle bo hynny'n ymarferol).
2. Cadw'r gwres yn isel lle bo'n bosib (ac ar dymheredd cyfforddus), a defnyddio cyn lleied o'r ffan ag sy'n bosibl (ond gan sicrhau bod y ffenestr flaen yn glir rhag cyddwysiad).
3. Peidio â gwresogi'r seddi am gyfnodau hir.
4. Sicrhau bod y car yn y modd "Eco". Os ydych chi'n sylwi bod "Normal" neu "Sport" yn cael ei arddangos ar y dangos-sgrin (fel y dangosir isod) yna newidiwch i'r modd "Eco" gan ddefnyddio'r botwm fel y dangosir isod.






Crëwyd gan y tîm hyfforddi gweithredol
Chwefror 2022

Gwybodaeth ychwanegol

| | | |
|---|---|---|
| Gwefru mewn pwyntiau Clenergy sydd heb sgrin.<br>e.e. Maes parcio Porth y Dwyrain, Llanelli a Rhydaman. | Wrth roi'r cerdyn Clenergy EV yn erbyn y derfynell, cadwch lygad am y golau'n newid a'r bîp dilynol.<br>Wrth brofi, rydym wedi gweld bod y golau'n wyrdd os nad yw'r derfynell yn cael ei defnyddio, fod y golau'n troi'n ambr wrth ddangos y cerdyn, a bod y golau'n troi'n las ar ôl plygio i mewn (fel y dangosir).<br>Gallwch hefyd wirio bod y car yn gwefru trwy edrych ar y dangosydd ar dop y dangosfwrdd a hefyd y dangos-sgrin. |  |

Crëwyd gan y tîm hyfforddi gweithredol
Chwefror 2022